# ADTRAC UPDATE
## Hair and beyond

Courtney has been accessing support from the ADTRAC project to help with her confidence and pursue her career in hairdressing. From working with her ADTRAC Youth Engagement Mentor, Courtney was supported to access early entitlement for her daughter, registered with a GP and attended Careers Wales to write her CV. Further to this, Courtney attended a Level 2 in Effective Team Skills course and was presented her certificate by Lesley Griffiths AM.

**Courtney Ellis** – “I like working with my ADTRAC Youth Engagement Mentor, they have found me a volunteering placement and are helping me to get on training.”



Courtney currently volunteers one day a week in a local hairdressing salon where she washes and dries hair, maintains cleanliness of the salon, makes beverages and takes part in reception duties. The manager of the salon has given great feedback on lots of occasions and commented on how hard working Courtney is.

**Zoe Chetwynd, Manager Salon One 20**
“Courtney’s volunteering has been a great help in the salon and she has been great with the clients.”



Courtney feels she is now ready to complete her NVQ Level 2 in Hairdressing and she should be accessing training very soon. Courtney’s confidence is improving every day and is even meeting new friends in the salon.

Cyflogaeth / Employment

Hyfforddiant / Training

Addysg / Education

If like Courtney you could benefit from ADTRAC support, please contact us and one of our local North Wales teams will be in touch.

**adtrac@gllm.ac.uk**

**www.gllm.ac.uk/adtrac**

**@adtrac1624**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

# DIWEDDARIAD O WAITH ADTRAC

## Tu hwn i'r gwallt

Mae Courtney wedi bod yn derbyn cefnogaeth gan brosiect ADTRAC i feithrin ei hyder ac i weithio tuag at yrfa ym maes trin gwallt. Drwy weithio gyda Mentor Ymgysylltu ag Ieuenctid ADTRAC, cafodd Courtney gymorth i ganfod a gwneud cais am hawliau ei merch, cofrestrodd gyda Meddyg Teulu ac aeth i Gyrfa Cymru i ysgrifennu CV. Yn dilyn hyn, dilynodd Courtney gwrs Lefel 2 mewn Sgiliau Effeithiol - Gweithio mewn Tîm, ac fe gyflwynwyd ei thystysgrif iddi gan Lesley Griffiths AC.



**Courtney Ellis** – "Dw i'n hoffi gweithio gyda Mentor Ymgysylltu ag Ieuenctid ADTRAC, mi ddaeth o hyd i leoliad gwirfoddoli ar fy nghyfer, ac mae'n fy nghynorthwyo i ddechrau ar gwrs hyfforddiant."

Ar hyn o bryd, mae Courtney yn gwirfoddoli am un diwrnod yr wythnos mewn salon trin gwallt lleol. Mae hi'n golchi a sychu gwallt, yn cynnal glendid y salon, yn gwneud paneidiau ac yn cyflawni dyletswyddau ar y dderbynfa. Mae rheolwr y salon wedi rhoi adborth gwych sawl gwaith ac wedi nodi pa mor weithgar ydy Courtney.



**Zoe Chetwynd, Rheolwr Salon One 20**
"Mae gwaith gwirfoddol Courtney wedi bod o gymorth mawr i ni yn y salon, ac mae hi wedi bod yn wych gyda chleientiaid."

Mae Courtney yn teimlo ei bod hi'n barod i gwblhau ei NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt ac mi ddylai ddechrau ar hyfforddiant yn fuan iawn. Mae hyder Courtney yn cynyddu bob dydd ac mae hi'n cwrdd â ffrindiau newydd yn y salon.

Cyflogaeth / Employment

Hyfforddiant / Training

Addysg / Education

Os hoffech chi fel Courtney elwa ar gymorth prosiect ADTRAC, cysylltwch â ni a bydd aelod o dîm lleol Gogledd Cymru yn cysylltu â chi.

**adtrac@gllm.ac.uk**

**www.gllm.ac.uk/adtrac**

**@adtrac1624**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**